y Goleuad

CYFROL CXXXVII RHIF 49 DYDD GWENER, RHAGFYR 4, 2009 Pris 40c

DATHLU CANMLWYDDIANT

Eglwys Peniel, Foelgastell

Ar benwythnos braf ym mis Medi o dan lywyddiaeth y Parchedig Trefor Lewis, Llanddarog, daethom ynghyd i ddathlu canmlwyddiant eglwys Peniel. Adeiladwyd Peniel yn 1909 sef yr un flwyddyn ac y sefydlwyd Woolworth ac y dechreuwyd adeiladu'r Titanic ac fe wyddom beth ddaeth o'r ddau hynny, felly mae'n rhaid ein bod yn gweithredu'n gywir!

Sefydlwyd Peniel yn wreiddiol fel ysgoldy i gapel Llanlluan. Roedd yr aelodau yn cerdded tair milltir o Foelgastell a Chefneithin i Llanlluan deirgwaith ar y Sul a hefyd i Gyfarfod Gweddi yn ystod yr wythnos, ac fe adeiladwyd Peniel fel bod yr aelodau hyn yn gallu cael Ysgol Sul yn nes i'w cartrefi yn hytrach na teithio. Yn 1911 argraffwyd y llyfr 'Hanes Methodistiaeth Sir Gaerfyrddin' gan y Parchedig James Morris Llansteffan, ac mae pennod yno am Llanlluan sy'n cynnwys hanes Peniel: 'Cychwynodd Eglwys Llanlluan mewn undeb a'r Cyfarfodydd Misol, Ysgol Sul yn ddiweddar yn Foelgastell, ac yn y flwyddyn 1909 agorwyd ysgoldy yno. Gosodwyd y cerrig sylfaen gan y meistri D. Davies, Park; D. Francis, Teglan: Williams, Bettws; a W. Evans, Cenarth, gynt o Llanlluan. Credwn y bydd eglwys yno yn fuan.'

Ymhen rhai blynyddoedd roedd bri ar yr Ysgol Sul a theimlai y sawl oedd yn mynychu yn gallent sefydlu eglwys ar y safle. Gwnaeth y swyddogion gais am sefydlu eglwys lawn ar y safle ac ar y Sul cyntaf o Ebrill 1917 cyhoeddwyd Peniel yn Eglwys yn ôl defod y Methodistiaid Calfinaidd. Yn 1952 pan ddaeth y Frenhines Elisabeth i'r orsedd a'r wlad yn llawn cyffro am ddechrau newydd, rhywbeth gwahanol iawn oedd yn cyffroi cymdogaeth ardal Crosshands. Roedd y Parchedig H. H. Williams yn weinidog ar Peniel ac yn arwain diwygiad yn yr ardal yn ystod y pumdegau, ac yn ystod y diwygiad yma cafwyd ymgyrch ym Mheniel am wythnos gyfan, ac yno y gwnaeth y Parchedig Ddr Eifion Evans roi ei bregeth gyntaf, a dyma Peniel a ddaeth i fodolaeth yn ystod diwygiad 1904 yn cymryd rhan flaenllaw unwaith eto.

Dechreuwyd ein dathlu gyda oedfa ar nos Iau 24ain pryd y cafwyd darlleniad a gweddi gan y Parchedig Arnallt Morgan (Genesis 32, adn 24-32) yn cynnwys yr adnod 'A galwodd y lle Peniel, canys gwelais Dduw wyneb yn wyneb a dihangodd fy einioes.' Tybed sawl un sy'n gallu dweud yr un peth am Peniel yn ystod y ganrif ddiwethaf? Yn ystod yr oedfa cafwyd cyfarchion gan Mr Hywel Hughes, Llywydd Henaduriaeth Myrddin, Mr Lynne Griffiths, Caersalem ar ran hen ddosbarth Yr Hendre, a Mr Omri Griffiths, Capel Newydd ar ran dosbarth newydd Gwendraeth. Y Canon Michael Rees siaradodd ar ran Eglwysi'r cylch.

Wrth gwrs ni fyddai unrhyw ddathliad yn gyflawn heb gael te ! Prynhawn dydd Sadwrn cawsom amser difyr yng nghwmni Mrs Jean Voyle Williams, yn hel atgofion am yr hen ddyddiau yn casglu ar y traeth ar drip Ysgol Sul. Ei thadcu oedd yn dysgu'r ifanc i gymeryd rhan yn gyhoeddus,ac yn ysgogi dadlau brwd yn yr Ysgol Sul. Pobl ddi-addysg efallai ond yn gwybod y Beibl yn drylwyr. Yn ddiweddglo i'r dathlu cafwyd Diolchgarwch a Chymun dan arweiniad y Parchedig Illtyd Prothero, a chododd ei destun o Micah Pen 6, adnod 8:- 'A pha beth a gais yr Arglwydd gennyt?' Ein anrhydedd a'n pleser fel aelodau o Eglwys Iesu Grist yw cynnal y fflam a bod yn barod i'r dydd pan fydd Duw yn galw ar ein dwylo eto. Efallai nad oes y bwrlwm a fu ym Mheniel ond cofiwn addewid yr Iesu;- 'Canys lle mae dau neu dri wedi ymgynnyll ynghyd yn fy enw i, yno yr ydwyf yn eu canol hwynt.'

Y te dathlu

Mrs. Lizzie Maud Williams (yr aelod hynaf) yn torri'r gacen